# Gofal Plant yng Nghymru

## Gorchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r • Cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government











# Helo

Mae llawer o deuluoedd yng Nghymru yn defnyddio gofal plant tra'u bod nhw yn y gwaith neu'n gwneud pethau eraill. Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael gofal o ansawdd da, lle bynnag y maen nhw.

Mae pobl yn defnyddio llawer o opsiynau gwahanol ar gyfer gofal plant, gan gynnwys:

- meithrinfeydd a lleoliadau gofal dydd llawn
- gofal y tu allan i'r ysgol
- grwpiau chwarae
- crèches
- chwarae mynediad agored
- gwarchodwyr plant
- aelodau o'r teulu (e.e. mam-gu a thad-cu, brodyr/chwiorydd)
- nanis neu au pairs
- gwarchodwyr babanod

Nid oes rhaid i rai o'r rhain gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd. Mae dogfen gyfreithiol o'r enw Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant ac Eithriadau Gofal Dydd (Cymru) 2010 yn nodi'r 'eithriadau' hyn ac yn nodi pa ddarparwyr sy'n cael eu 'heithrio'.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn sicrhau bod llefydd sy'n darparu gofal a chymorth yn ddiogel ac yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir.



# Beth yw hwn i gyd?

Rydym yn gofyn am eich barn am rai newidiadau pwysig i'r ffordd mae gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru.

## Y cwestiynau mawr:

### Rhan A

**Pwy na ddylai gofrestru?** Mae hyn yn ymwneud â diweddaru'r gyfraith fel bod y rheolau yn gliriach ac yn decach ac yn gweithio i sicrhau bod gofal plant diogel, fforddiadwy ar gael i deuluoedd.

### Rhan B

**A ddylem greu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol newydd?** Rydym ni'n meddwl am sefydlu Cynllun Gwirfoddol lle gall darparwyr anghofrestredig gael statws "cymeradwy". Gallai hyn roi mwy o opsiynau i deuluoedd ac efallai eu helpu i gael cymorth ariannol.

### Rhan C

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar bobl yng Nghymru ac ar y Gymraeg?** A oes unrhyw effeithiau nad yw Llywodraeth Cymru wedi meddwl amdanynt?

## Diogelu

Mae'n bwysig cadw pob plentyn a person ifanc yn ddiogel. ***Mae'r Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Cod Ymarfer Diogelu*** ar gyfer pawb sy'n darparu gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau i blant, p'un a ydynt wedi cofrestru ai peidio.

Rydym ni'n adolygu'r Cod ac yn meddwl sut y byddai newidiadau i'r Eithriadau a gwneud Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn gweithio gydag unrhyw newidiadau i'r Cod.

## Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn

Yn 2024–2025, buom yn siarad â tua **400** o bobl – plant, rhieni, darparwyr gofal plant, a sefydliadau. Fe wnaethom hefyd sefydlu Grŵp Cynghori gydag arbenigwyr o bob cwr o Gymru i'n helpu.

**Nawr, rydyn ni eisiau clywed eich barn chi.**

**Rhan A:**

# Pwy ddylai gofrestru?

Mae'r rhan hon yn sôn am y newidiadau yr ydym ni am eu gwneud i'r gyfraith a phwy ddylai gofrestru.

## Pam mae hyn yn bwysig

Rydym eisiau diweddaru'r gyfraith fel ein bod yn gallu:

- helpu teuluoedd i gael gofal plant fforddiadwy a hygyrch
- rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sicrhau bod ganddynt gyfleoedd i ddysgu, datblygu a chael hwyl
- gwneud yn siŵr mai'r darparwyr cywir sy'n gorfod cofrestru
- hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant ym mhob lleoliad gofal plant
- gwneud y gyfraith yn haws i'w deall

Rydym ni'n credu bod angen i ni wneud hyn nawr oherwydd:

- nid yw gyd or rheolau presennol yn cyd-fynd â'r ffordd mae pobl yn defnyddio gofal plant y dyddiau hyn
- mae adroddiadau gan adrannau a sefydliadau eraill hefyd yn awgrymu bod angen diweddaru'r gyfraith

## Beth mae 'cofrestru' yn ei olygu?

Mae rhai darparwyr gofal plant angen cofrestru gydag AGC. Mae'n golygu bod rhaid iddynt ddilyn rheolau i gadw plant yn ddiogel, gan gynnwys:

- darparu gwybodaeth amdanynt eu hunain
- cael y cymwysterau cywir
- sicrhau bod y lle gofal yn ddiogel ac yn addas
- dilyn rheolau gwiriadau cefndir
- cael digon o staff
- dilyn hyfforddiant i gadw sgiliau'n gyfredol
- caniatáu i AGC gynnal archwiliadau
- hysbysu AGC am unrhyw newidiadau

Mae AGC yn cynnal arolygiadau ac yn gwirio ansawdd y gofal maen nhw'n ei roi i blant. Gall AGC gymryd camau i sicrhau eu bod yn gwella.



## 1. Rhieni, gofalwyr maeth, perthnasau ac aelodau'r cartref

**Rheol gyfredol:** Nid oes angen i rieni, gofalwyr maeth, a pherthnasau gofrestru fel gwarchodwyr plant.

**Y broblem:** Nid yw hyn yn cyd-fynd â pholisïau a chanllawiau eraill gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

### Ein cynnig

➡ Rydym ni am gadw rhai pethau yr un fath felly nid oes angen i rieni, gofalwyr maeth, a **pherthnasau** gofrestru.

➡ Rydym ni am sicrhau bod y gyfraith a'r canllawiau yn cyfateb a'i gwneud yn glir pwy sydd angen cofrestru fel gwarchodwr plant.

➡ Fodd bynnag, rydym ni am roi cyfle i berthnasau a phobl eraill sy'n byw ar yr un aelwyd â'r plentyn gofrestru fel gwarchodwyr plant os:

- nid ydynt yn rhiant ac nad oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plenty
- nad ydynt yn ofalwr maeth y plentyn
- nad yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn
- ac mae'r gofal ar gael i blant eraill nad ydynt yn perthyn iddyn nhw

**Beth yw eich barn?**



## 2. Gwarchodwyr babanod, Nanis, ac Au Pairs

### Rheolau Cyfredol:

Nid oes angen i nanis **ac** au pairs gofrestru os:

- ydyn nhw'n cael eu talu'n uniongyrchol gan rieni ac mae'r gofal yng nghartref y plant
- mai dim ond i hyd at 2 deulu ar y tro maen nhw'n gweithio

**Nid oes** angen i gwarchodwyr babanod os:

- ydyn nhw'n gweithio rhwng 6pm a 2am a
- ydyn nhw'n gweithio mewn gwestai, tai llety neu leoedd eraill, gan roi gofal plant i ddim mwy na 2 deulu ar y tro

### Y problemau:

Mae angen i'r rheolau fod yn gliriach a thrin nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod yn yr un modd.

Nid yw'r terfyn amser 6pm-2am ar warchod plant yn helpu teuluoedd sydd angen gofal plant mwy hyblyg.

### Ein cynnig

➡ Rydym ni eisiau:

- dileu'r terfyn amser 6pm-2am ar gyfer gwarchodwyr babanod
- sicrhau bod gwarchodwyr babanod yn rhoi gofal plant i 2 deulu ar unwaith yn unig
- ei gwneud hi'n glir y gall gofal ddigwydd naill ai yng nghartref y teulu neu rywle y tu allan i gartref (fel gwestai)
- sicrhau y gall rhieni drefnu popeth yn uniongyrchol gyda gwarchodwyr babanod yn yr un ffordd maen nhw'n ei wneud gyda nanis ac au pairs

**Beth yw eich barn?**

## 3. Gwasanaethau Ieuenctid

**Rheol gyfredol:** Nid oes angen i wasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 11 mlwydd oed neu hŷn gofrestru.

**Y broblem:** Yn aml mae angen y math hwn o gymorth ar blant 10 mlwydd oed, ac ni ddylid eu stopio oherwydd rheolau ar gofrestru.

### Ein cynnig

➡ Rydym ni am ostwng yr oedran i 10 ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, fel y gallant roi cefnogaeth addysgol, personol a chymdeithasol i bobl ifanc wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Beth yw eich barn?**



## 4. Hyfforddi a Dysgu

**Rheol gyfredol:** Nid oes angen i bobl sy'n darparu hyfforddiant mewn chwaraeon, celfyddydau perfformio, celf a chrefft, cymorth gwaith cartref, neu astudiaethau crefyddol a diwylliannol gofrestru os:

- ydyn nhw'n cynnig 1 neu 2 fath o weithgareddau o'r rhestr uchod
- ydyn nhw'n hyfforddi neu'n cynnig hyfforddiant i blant dan 5 mlwydd oed am ddim mwy na 4 awr y dydd

**Y broblem:** Mae cynnig llawer o wahanol weithgareddau yn golygu y gallai plentyn fod yno am ddiwrnod cyfan ac efallai y bydd angen gofal arno yn ystod y cyfnod hwn. Rydym ni'n credu na ddylai plant dan 5 mlwydd oed fod yno am 4 awr heb i'w rhieni fod yn bresennol.

### Ein cynnig

➡ Rydym ni am newid y rheolau ynghylch terfynau oedran felly dim ond am uchafswm o 2 awr y dydd y gall plentyn 4 mlwydd oed ac iau fynychu os nad yw eu rhieni gyda nhw. Os byddant yn mynychu am gyfnod hirach na hynny, mae'n rhaid i'r darparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd.

➡ Rydym ni am newid y rheolau mewn perthynas â gweithgareddau fel mai dim ond un math o weithgaredd y gellir ei gynnig, er enghraifft, chwaraeon neu astudiaethau crefyddol, nid y ddau. Gallant gynnig llawer o weithgareddau o fewn un math (fel gwahanol gampau), ond nid ar draws mathau. Byddai cynnig mwy nag un math — megis chwaraeon ac astudiaethau crefyddol — yn golygu y byddai'n rhaid i ddarparwyr gofrestru.

➡ Rydym ni hefyd o'r farn y dylid newid gweithgareddau i:

- chwaraeon
- celfyddydau mynegiannol a chreadigol
- cymorth addysgol (ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd, iechyd a llesiant)
- astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol

**Beth yw eich barn?**

## 5. Ysgolion gyda phlant ifanc iawn

**Rheol gyfredol:** Nid oes angen i ysgolion gofrestru fel gofal plant os ydynt yn darparu gofal sy'n digwydd yn gysylltiedig ag addysg.

**Y broblem:** Mae angen darpariaeth gofal dydd bwrpasol ar blant 2 oed neu'n iau yn hytrach nag addysg ffurfiol mewn ysgol. Bydd angen newidiadau cewynnau, cymorth i ddefnyddio'r toiled, cyntun, cymorth bwydo ar blant dwy oed - nid pethau bach yw'r rheini - mae'n ofal plant priodol.

### Ein cynnig

Rydym ni am ychwanegu terfyn oedran fel nad oes rhaid i ysgolion sydd ond yn gofalu am blant 3 oed neu'n hŷn gofrestru. Ond os oes gan yr ysgol blant 2 oed neu iau yno, byddai'n rhaid i'r rhan honno o'r ysgol gofrestru.

Beth yw eich barn?

## 6. Darparwyr wedi'u Hatal

**Sefyllfa bresennol:** Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru yn atal darparwr cofrestredig (yn aml am resymau diogelwch), gall barhau i weithredu am hyd at 2 awr y dydd gan ddefnyddio'r "eithriad 2 awr."

**Y broblem:** Os yw rhywun wedi cael ei atal am resymau diogelwch, ni ddylen nhw allu parhau i weithio oherwydd bwlch yn y rheolau.

### Ein cynnig

Rydym ni am sicrhau nad oes bylchau yn y rheolau — os yw rhywun yn cael ei atal, maen nhw wedi cael eu hatal ac ni ddylent allu cynnig gofal plant gan ddefnyddio'r eithriadau.

Beth yw eich barn?



## 7. Plant 2 Flwydd Oed ac Iau

**Rheol gyfredol:** Gall pobl ofalu am blant 2 flwydd oed neu iau a gweithio gyda nhw heb gofrestru os ydyn nhw'n:

- rhoi gofal am 2 awr neu lai y dydd
- rhoi gofal am 5 diwrnod neu lai y flwyddyn a rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru eu bod yn ei wneud ymlaen llaw
- cynnig hyfforddi a dysgu

### Ein cynnig

Hoffem wybod a ydych chi'n credu y dylai unrhyw un sy'n gofalu am blant 2 flwydd oed neu iau orfod cofrestru os nad yw rhieni plentyn gyda nhw. Hoffem hefyd gael gwybod a ydych chi'n meddwl ei fod yn gwneud gwahaniaeth os yw'r rhieni'n aros ar y safle.

Beth yw eich barn?

### Risgiau posibl ein cynnig:

- **Llai o argaeledd** - Efallai y bydd rhai darparwyr yn rhoi'r gorau i gymryd plant 2 flwydd oed ac iau neu'n cau'n llwyr
- **Costau uwch** - Os oes angen i ddarparwr gofrestru gellid trosglwyddo'r treuliau i deuluoedd
- **Llai o ddarparwyr newydd** - Ni all pobl brofi a yw gofal plant yn gweithio iddyn nhw cyn buddsoddi mewn cofrestriad llawn
- **Mwy o gymhlethdod** - Gallai hyn wneud y rheolau yn anoddach eu deall a'u gorfodi

### Manteision posibl ein cynnig:

- **Goruchwyliaeth well** - Mwy o reoleiddio ac arolygu ar gyfer y grŵp oedran bregus hwn
- **Oriau gweithredu hirach** - Dim mwy o derfynau 2 awr dyddiol neu 5 diwrnod blynyddol
- **Mynediad at raglenni** - fel Dechrau'n Deg a gallai mwy o deuluoedd ddefnyddio Gofal Plant Di-Dreth a Chredyd Cynhwysol Gofal Plant
- **Diogelwch** – Mae rhai pobl yn credu bod cofrestru yn ffordd o sicrhau bod gofal o ansawdd da

### Cyfnod Pontio o Flwyddyn

Os bydd y newidiadau uchod yn digwydd, byddai pobl sy'n gorfod cofrestru yn cael blwyddyn lawn i drefnu eu cofrestriad o'r dyddiad y mae'n dechrau.



## Rhan B:

# Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Arfaethedig

Rydym ni'n ystyried cyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau.

Mae hyn yn golygu y gallai pobl nad ydynt yn gorfod cofrestru gydag AGC ar hyn o bryd ddewis ymuno â'r cynllun os ydynt yn bodloni safonau sylfaenol.

## Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

**Sefyllfa bresennol:** Nid oes gan Gymru unrhyw gynllun gwirfoddol, ond mae gan Loegr un.

**Y broblem:** Mae hyn yn rhoi teuluoedd Cymru o dan anfantais.

Mae cofrestru neucymeradwyo gwirfoddol yn golygu:

- gall teuluoedd deimlo'n hyderus bod mesurau diogelwch ar waith yn y gofal plant
- mae teuluoedd yn defnyddio cynlluniau fel Gofal Plant Di-Dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol os ydynt yn gymwys ar ei gyfer
- mae awdurdodau lleol yn gwybod mwy am bobl sy'n darparu gofal i blant yn eu hardal ac yn gallu eu cefnogi

Nid yw Cymru'n cynnig hyn felly mae llawer o deuluoedd yn colli allan ar gymorth ariannol a thawelwch meddwl am ddiogelwch. Nid yw hyn yn ymwneud ag arian yn unig - mae'n ymwneud ag ymddiriedaeth. Byddai cynllun gwirfoddol yn rhoi mwy o hyder i rieni ddefnyddio gwahanol fathau o ofal plant.

### Ein cynnig

➡ Rydym ni am gyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Byddai hyn yn caniatáu i ddarparwyr nad oes rhaid iddynt gofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd, gael cyfle i gael statws "cymeradwy" a dangos eu bod yn bodloni rhai gofynion sylfaenol.

## Y Nodau

### Ein cynnig

➡ Rydym ni am i'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gael **3 nod:**

1. Helpu teuluoedd cymwys i ddefnyddio cynlluniau Gofal Plant Di-Dreth a Chredyd Cynhwysol Gofal Plant
2. Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cymeradwy fodloni safonau diogelwch sylfaenol fel y gall rhieni gael tawelwch meddwl
3. I gael gwell dealltwriaeth o ddarparwyr anghofrestredig a rhoi cymorth a gwybodaeth i ddarparwyr gofal sy'n cofrestru i'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

Beth yw eich barn?



# Beth mae pobl ei angen i ymuno â'r cynllun?

## Ein cynnig

Rydym ni'n credu y dylai pobl:

- fod yn 18 oed neu hŷn
- gael hyfforddiant cymorth cyntaf brys i blant
- gael hyfforddiant diogelu
- fod wedi gwneud cwrs AGC "Hanfodion Gofal Plant"
- gael gwiriad cefndir DBS Manwl i weithio gyda phlant ac ni ddywedwyd wrthynt na allant weithio gyda phlant
- gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

Rydym ni'n credu y dylent wneud hunan-ddatganiad i gytuno i wneud y canlynol:

- dilyn cod diogelu Cymru
- defnyddio arferion recriwtio diogel
- meddu ar weithdrefnau cwyno priodol
- gwneud asesiadau risg
- dilyn unrhyw reolau hylendid bwyd
- dilyn canllawiau arfer gorau ar staffio, safleoedd, cadw cofnodion

Beth yw eich barn?

# Sut fyddai'r cynllun yn cael ei reoli?

## Ein cynnig

Byddai'r Cynllun yn cael ei reoli gan AGC.

Ni **fyddent yn:**

- cynnal archwiliadau neu farnu ansawdd gofal
- ymwneud ag unrhyw gwynion o ddydd i ddydd

**Byddent yn:**

- prosesu ceisiadau ac ymdrin â cheisiadau adnewyddu
- rhoi gwybodaeth am ddarparwyr cymeradwy i Awdurdodau Lleol fel y gallant gael cymorth
- peidio ag ymchwilio neu gynnal arolygiad yn achos pryder diogelu, ond yn cydgysylltu â'r awdurdod lleol sy'n ymgymryd â'r broses ddiogelu i gadarnhau'r canlyniad.
- gallu gwrthod cais neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl
- gallu atal cymeradwyaeth os oes angen
- rhoi 28 diwrnod i'r darparwr ddweud eu bod yn anghytuno ag atal, tynnu'n ôl neu'r ffaith nad ydynt wedi cael cymeradwyaeth



**Byddai'n rhaid i'r darparwr cymeradwy wneud y canlynol:**

- adnewyddu bob blwyddyn a thalu ffi flynyddol
- dweud wrth AGC os ydynt yn newid eu henw, cyfeiriad neu fanylion cyswllt
- dweud wrthynt os ydynt yn torri'r gyfraith, neu os oes ganddynt rybudd heddlu

Beth yw eich barn?

## Pwy allai ymuno â’r cynllun?

### Ein cynnig

Rydym ni’n credu y gallai darparwyr nad oes rhaid iddynt gofrestru allu gwneud cais i ymuno â’r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gan gynnwys:

- sesiynau sy’n cael eu rhedeg gan awdurdod lleol neu ysgol (2 awr neu lai)
- gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd sy’n gweithredu am 2 awr neu lai naill ochr i’r ysgol
- pobl sy’n rhoi gofal plant am 2 awr neu lai (ar unrhyw adeg o’r dydd)
- gwarchodwyr babanod, nanis, ac au pairs
- darparwyr hyfforddiant (sy’n rhedeg am fwy na 2 awr)
- gweithgareddau preswyl tymor byr
- darparwyr achlysurol (5 diwrnod neu lai y flwyddyn)
- gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd ar gyfer plant 12—16 mlwydd oed

Beth yw eich barn?

## Beth fyddai’r gost i ddarparwyr gofal plant?

### Ein cynnig

Rydyn ni’n meddwl y byddai ffi flynyddol i adnewyddu’r cymeradwyaeth. Er enghraifft, mae ffi o £114 yn gynwysedig yng nghynllun Lloegr.

Beth yw eich barn?

## A ddylem wneud hyn?

Dim ond cynnig yw hwn o hyd. Rydyn ni eisiau gwybod eich barn cyn i ni benderfynu ei ddatblygu ymhellach.

Beth yw eich barn?



## Rhan C: Asesiad o'r effaith

Byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar lawer o bobl wahanol — darparwyr gofal plant, plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau. Rydym ni wedi gwneud ein hasesiadau effaith ein hunain, ond rydym ni am glywed sut rydych chi'n meddwl y gallai effeithio ar bobl, fel nad ydym yn colli unrhyw beth.

**Risgiau** – Rydym ni am sicrhau nad yw'r newidiadau hyn yn niweidio pobl nac yn cael effaith negyddol arnynt. Pa risgiau ydych chi'n meddwl sydd?

**Buddion** – Rydym ni am sicrhau bod y newidiadau hyn o fudd ac yn creu cyfleoedd i bawb ledled Cymru. Pa fanteision ydych chi'n meddwl sydd?

**Costau** – Rydym ni'n gwybod bod newid yn cymryd amser, adnoddau ac arian. Pa gostau ydych chi'n meddwl sydd?

**Gwahanol grwpiau** – Rydym ni eisiau gwybod beth fyddai'r effaith yn eich barn chi:

- plant a phobl ifanc
- teuluoedd
- pobl o gefndiroedd gwahanol (anabledd, hil, rhyw, rhywioldeb, crefydd, oedran)
- cymunedau sy'n wynebu tlodi
- ac eraill

**Iaith Gymraeg** – Rydym ni am sicrhau bod y cynigion hyn yn cefnogi cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a chael gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Sut ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg?

**?** Beth yw eich barn?



# Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, byddwn yn dadansoddi'r hyn rydych chi wedi'i ddweud ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

## Newid y Gorchymyn Eithriadau

Os byddwn yn newid y gyfraith y cynharaf y byddai unrhyw reolau newydd yn dechrau yw 2026/2027. Byddai unrhyw ddarparwyr sydd angen cofrestru oherwydd y newidiadau yn cael blwyddyn lawn i wneud hyn a chael eu darpariaeth yn barod.

## Y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

Bydd eich ymatebion yn ein helpu i benderfynu a ddylid sefydlu hwn ai peidio a sut y byddai'n edrych.



Diolch am ddarllen hwn.